

Ar gyfer defnydd swyddfa:

ENQ/

Rhaid i ymholiad cyn-cais dilys gynnwys ffurflen gais wedi ei chwblhau, cynllun lleoliad i raddfa gydnabyddedig, gyda chyfeiriad y Gogledd, yn pennu'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef a ffi ymgeisio statudol. Heb dalu ffi briodol a chyflwyno'r uchod, ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu prosesu eich ymholiad. Mae rhagor o wybodaeth am y rheoliadau ffioedd ar gael ar y ddolen ganlynol:

<http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Planning-Applications/assets/documents/Ffioedd-Ymholi-Statduol-Cyn-Gwneud-Cais.pdf>

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddarparu ymateb ysgrifenedig i bob ymholiad statudol dilys cyn cyflwyno cais o fewn 21 diwrnod o'i dderbyn, oni bai y cytunir ar estyniad amser rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd. Fel isafswm, dylech ddisgwyl derbyn yr wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb ysgrifenedig: hanes cynllunio perthnasol y safle; y polisïau cynllunio datblygu perthnasol y bydd y cynnig datblygu yn cael ei asesu yn eu herbyn; canllaw cynllunio atodol perthnasol (h.y. dylunio, cadwraeth ac ati); ystyriaethau cynllunio pwysig eraill ac asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig, yn seiliedig ar yr uchod / gwybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal ag a oes unrhyw gyfraniadau Adran 106 neu Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn debygol o gael eu ceisio ac arwydd o'r cwm pas a swm y cyfraniadau hyn. Gellir gweld deddfwriaeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gwasanaethau Cyn Cyflwyno Cais) (Cymru) 2016 ar y wefan ganlynol:

<http://www.senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=14501>

FFURFLEN GAIS CYN YMGEISIO

1. MANYLION CYSWLLT	(Ticiwch yr un sy'n briodol)		
YMGEISYDD	<input type="checkbox"/>	ASIAANT	<input type="checkbox"/>
Enw:	<input type="text"/>		
Cyfeiriad:	<input type="text"/>		
Cod post:	<input type="text"/>	Rhif ffôn:	<input type="text"/>
E-bost:	<input type="text"/>		

2. Y SAFLE

(a) Cyfeiriad y safle:

(b) Ardal y safle yw:

(c) Defnydd presennol, neu, os ydyw'n wag, y defnydd hysbys diwethaf o'r adeilad / tir:

3. Y CYNNIG - Rhowch ddisgrifiad o'ch cynnig yn amlinellu unrhyw:

- Defnydd tir/adeiladau presennol
- Adeiladau a fydd yn cael eu dymchwel
- Gwaith ffisegol / adeiladau newydd
- Defnydd arfaethedig o'r safle
- Nifer yr unedau a gynigir
- Gwybodaeth arall a all fod yn ddefnyddiol wrth asesu eich cynnig

4. MATH O ADEILADAU A GYNIGIR

Adeiladau (ac eithrio anheddau) gan gynnwys Newid Defnydd Sylweddol

Dosbarth defnydd (os yw'n hysbys / Defnydd:

Nifer y lloriau:

Deunyddiau arfaethedig:

Dimensiynau:

Uchder at y crib:

Lled:

Hyd:

Cyfanswm Arwynebedd Llawr Gros Allanol (os yn hysbys):

Anheddau (gan gynnwys fel rhan o Newid Defnydd Sylweddol)

Nifer yr anheddau (os yw'n hysbys):

Math o annedd (h.y. fforddiadwy, marchnad (fflatiau gan gynnwys gwyliau), Tai Amlfeddiannaeth ac ati):

5. A effeithir ar unrhyw goed / gwrychoedd?

Os atebwch "**Bydd**", eglurwch:

6. A oes unrhyw ystyriaethau cynllunio arbennig eraill megis halogiad tir, materion llifogydd / draenio, mwynau, diddordebau cadwraeth neu gynefin brodorol?

Os atebwch "**Oes**", rhowch fanylion:

7. Trefniadau mynediad a danfon, gan gynnwys math a maint y traffig a gynhrychir:

8. Lefel y ddarpariaeth barcio a fwriedir:

9. Nifer y swyddi presennol ac arfaethedig (llawn a rhan amser):

10. CYFRINACHEDD

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gellir ond tynnu deunydd cyn ymgeisio yn ôl oddi wrth y cyhoedd pe gallai ei datgelu niweidio buddiannau masnachol, atal cynghorion rhwydd ac agored neu gyfnewid barn yn ystod y broses gynllunio, neu a allai niweidio ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus. Yn gyffredinol, unwaith y bydd cais cynllunio wedi'i gyflwyno ac yn y parth cyhoeddus, ni ellir trin gwybodaeth a gyflwynwyd a chynghor a roddwyd yn gyfrinachol mwyach. Mae'r Cyngor yn cadw disgrisiwn llwyr ynghylch datgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo. Os ydych yn dymuno i'r Cyngor drin deunydd cyn ymgeisio'n gyfrinachol, yna bydd angen i chi nodi yn y gofod isod y rhesymau pam ac am ba hyd, bod angen i unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor a roddwyd aros yn gyfrinachol.

A ydych yn dymuno i'r Cyngor drin gwybodaeth cyn ymgeisio yn ymwneud â'r cynghorion yn gyfrinachol?

Rhesymau pam bod angen trin unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor yn gyfrinachol:

Cyfnod o amser mae angen i'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cynghorion aros yn gyfrinachol:

Darparwch yr wybodaeth ganlynol gyda'ch ymholiad:

CYNLLUN SAFLE / LLEOLIAD

Cynllun graddfa (yn ddelfrydol i raddfa o 1:1250 neu 1:2500) o'r safle dan sylw yn ddigon i:

- (i) Adnabod yr eiddo mewn perthynas â'r briffordd neu dirnod arall
- (ii) Dangos y safle mewn perthynas ag eiddo ac adeiladau cyfagos
- (iii) Nodi trefniadaeth adeiladau presennol a defnyddiau ar y safle

Cynllun braslun o'r cynllun arfaethedig sy'n:

- (i) Nodi trefniadaeth bwriedig yr adeiladau / gwaith a defnyddiau arfaethedig (gan gynnwys parcio)
- (ii) Dangos mynediad arfaethedig a threfniadau gwasanaethu

Cynlluniau dangosol yr adeiladau a fwriedir (os yw ar gael) yn dangos:

- (i) Maint y safle, siâp yr adeiladau arfaethedig
- (ii) Drychiadau
- (iii) Ffur / siâp y to

Sicrhewch eich bod wedi:

- (i) Ateb pob rhan o'r ffurflen

- (ii) Darparu'r cynllun safle / lleoliad gofynnol
- (iii) Darparu gosodiad eich cynigion ac (lle bo'n berthnasol ac ar gael) wedi llofnodi'r datganiad isod
- (iv) Cyflwyno ffi cais.

Ar ôl ei chwblhau, anfonwch hi naill ai:

DRWY E-BOST: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

neu

DRWY'R POST: Rheoli Datblygu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN.

Ymwelwch â ni: Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ

Cynllun Safle/Lleoliad

Gwiriwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi cyflwyno cynllun sy'n dangos y tir y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo, a luniwyd i raddfa gydnabyddedig ac yn dangos cyfeiriad y gogledd.

Rwyf wedi atodi cynllun lleoliad sy'n bodloni'r gofynion a amlinellir uchod:

Ffi

Rwy'n cadarnhau bod y ffi gywir wedi ei chynnwys gyda'r ffurflen ymholiad cyn ymgeisio:

Os ydych yn ansicr o'r ffi gywir y mae angen i chi ei gyflwyno, gallwch gael gwybodaeth drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Planning-Applications/assets/documents/Ffioedd-Ymholi-Statduol-Cyn-Gwneud-Cais.pdf>

DATGANIAD

Rwyf trwy hyn yn cadarnhau ac yn cydnabod bod:

- (i) Yr wybodaeth a roddwyd gennyf yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- (ii) Unrhyw gyngor neu farn a gynigir gan Swyddogion sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn anffurfiol ac yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd.

Llofnod:

(Rhowch enw (teitl(au), enw(au) cyntaf a chyfenw(au)) os ydyw'n ffurflen PDF y gellir ei llenwi)

Dyddiad: